

# Cristion mewn gwirionedd

*“Yn Antiochia y cafodd y disgyblion yr enw Cristnogion gyntaf.” (adn. 26)*

## Beth am ddarllen Actau 11:19–30 ac yna myfyrio

Hyd yn hyn yn ein myfyrdodau, yr ydym wedi pwysleisio yr angen mawr o fewn yr Eglwys Gristnogol i gael ei diwygio. Ond ar ba sail? Er bod yna lawer o Eglwysi rhagorol yn y ganrif gyntaf, yr un yr wyf am ei defnyddio fel patrwm ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yw yr Eglwys yn Antiochia. Mae'r Eglwys yma yn darparu ar ein cyfer ni batrwm clir o sut y dylai'r Eglwys weithredu. Nid ar ddamwain “y galwyd y disgyblion yn Gristnogion am y tro cyntaf yn Antiochia”.

Yn y dyddiau hynny, fe newidiwyd enwau wrth i unigolion arddangos rhai nodweddion arbennig yn eu bywydau. Os oedd y cymeriad yn newid, roedd yr enw yn newid. Rhoddodd Iesu yr enw ‘Ceffas’ i Simon Pedr (ystyr y gair yw ‘craig’) oherwydd, er ei fod o ran natur yn gwyro yn ôl ac ymlaen, gwelodd y meistyr o'i fewn rinweddau cadarn yn datblygu (Ioan 1:42). Enw Barnabas cyn iddo ildio i Iesu oedd ‘Joseff’ ac ystyr y gair ‘Joseff’ yw ‘bydded i Dduw ychwanegu meibion’. Ond wedi cwrdd â Iesu, nid ychwanegiad oedd Joseff mwyach. Galwyd ef yn ‘Barnabas’ gan yr apostolion – mab yr anogaeth.

Roedd Antiochia yn ddinas gyfoethog gyda dros hanner miliwn o breswylwyr, ond mae hyd yn oed awduron paganaidd y cyfnod yn gytûn wrth ddisgrifio y ddinas hon fel un o ddinasoedd mwyaf paganaidd y byd Rhufeinig. Wrth i nifer fawr o bobl gredu a throï at yr Arglwydd, yr oedd Ysbryd Crist mor amlwg fel bod pobl Antiochia yn gorfod gweld y gwahaniaeth yn y bobl hyn. Gan fod nodweddion y grŵp yma o bobl yn ymdebygu i nodweddion Iesu ei hun, yr oeddent bellach yn cael eu galw yn ‘Gristnogion’, neu ‘pobl Iesu Grist’. Pa ffordd well sydd i ddarganfod patrwm ar gyfer diwygio yr Eglwys na thrwy archwilio elfennau y gymuned honno oedd mewn gwirionedd yn Gristnogol?

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Luc 14:25–33; Ioan 13:34–35; 2 Pedr 1:1–11

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut y cysylltir y geiriau ‘disgybl’ a ‘Christion’?
2. Beth yw nodweddion disgybl Cristnogol?

## Gweddi

O Dad, rwyf yn ddyledus i ti fod nodweddion dy Fab a chymeriad dy Fab yn medru cael ei adlewyrchu ym mywyd dy bobl. Caniatâ i'r nodweddion hyn fyw yn of ff. Caniatâ bod Ysbryd Crist yn fy meddiannu i'r fath raddau fel y bydd pobl yn fy adnabod fel Cristion. Amen.